


# Abercastle

## Teithiau Byr



**GRADDFA:** 0 300 600 m

**PELLTER:** ARFORDIR ABERCASTLE - 2.5 milltir (4.0 km)  
CARREG SAMPSON - 1.2 milltir (1.9 km)

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Trefin 413,  
\*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a theithio)

### CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

### ALLWEDD

- Arfordir Abercastle
- Carreg Sampson
- Llwyr Arfordir Sir Benfro  
Llwyr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



# Abercastle

## Teithiau Byr

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Trefin 413, \*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a theithio).

### Arfordir Abercastle

**Pellter:** 2.5 milltir (4.0 km)

**Cyfeirnod map:** SM863337

**Cymeriad:** Arfordirol, cerdded ar ymyl clogwyni, llwybrau fferm, peth cerdded ar heolydd bach..

2 sticil, grisiau.

O'r arosfan bysys: cerddwch i fyny'r tyle ar yr heol.

O'r maes parcio: gadewch y maes parcio a throwch i'r chwith ar unwaith ar draws pont gerdded o slab cerrig.

Parhewch i fyny'r grisiau ac ar y top trowch i'r chwith, yna i'r dde arno i'r trac. Wedi cyrraedd yr heol, trowch i'r chwith. Dilynwch yr heol, a ble mae'n troi i'r dde, ewch yn syth ymlaen i lawr trac cul de sac. Chwiliwch am sticil garreg a mynegbost ar y chwith, croeswch a dilynwch y llwybr wrth ymyl y cae, gan gadw'r clawdd ar y chwith. Ar y gwaelod, trowch i'r chwith arno i Lwybr yr Arfordir. Dilynwch Lwybr yr Arfordir yr holl ffordd yn ôl i Abercastell. Wedi cyrraedd y tai, dilynwch y llwybr i lawr y grisiau ac yn ôl i'r maes parcio. I gyrraedd yr arosfan bysys, trowch i'r chwith wrth y mynegbost ychydig uwchben y maes parcio.

### Carreg Sampson

**Pellter:** 1.2 milltir (1.9 km)

**Cyfeirnod map:** SM849336

**Cymeriad:** Caeau ag anifeiliaid, cerdded ar heolydd bach.

1 sticil, grisiau.

O'r arosfan bysys: cerddwch i lawr y tyle ar yr heol.

O'r maes parcio: cerddwch yn ôl i'r brif ffordd a throwch i'r dde.

Dilynwch y brif ffordd tuag at Trefin (arwydd ar gyfer y Ship Inn ayb), yna trowch i'r dde yn Longhouse Farm. Ble mae'r trac mynediad yn troi i'r chwith, trowch i'r dde trwy'r giât a dilynwch y llwybr wrth ymyl y cae, gan gadw'r wal ar y chwith. Wrth y giât, trowch i'r dde ac yna i'r chwith ar unwaith ar y llwybr wrth ymyl y cae, gyda'r ffens ar y chwith. Croeswch y sticil a throwch i'r dde ar y llwybr wrth ymyl y cae, gyda'r ffens ar y dde, ewch i lawr y grisiau a dilynwch Lwybr yr Arfordir yn ôl i'r maes parcio. I fynd i'r arosfan bysys, trowch i'r dde wrth y llithrffordd ac yna i'r chwith ar y brif heol.

